Carwyn Jones AM/AC
Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ
a'r Gweinidog dros Fusnes y Cynulliad a Chyfathrebu

Counsel General and Leader of the House
also Minister for Assembly Business and
Communications

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Yr Arglwydd Dafydd Elis – Thomas AC
Y Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

2 Awst 2007

Annwyl Dafydd

RHEOLIADAU BWYD (ATAL DEFNYDDIO E 128 RED 2G FEL LLIWIWR BWYD) (CYMRU) 2007

Ysgrifennaf i'ch hysbysu ei bod hi'n angenrheidiol torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â Rheoliadau Bwyd (Atal defnyddio E 128 Red 2G fel Lliwir Bwyd) (Cymru) 2007 i rym yng Nghymru yn unol â gweddill y DU. Llofnodwyd y Rheoliadau hyn ar 1 Awst 2007, eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Awst a byddant yn dod i rym ar 3 Awst 2007.

Bydd y Rheoliadau hyn yn rhoi mesurau gorfodi ar waith mewn perthynas â Rheoliad (CE) 884/2007 y Comisiwn (Cyfnodolyn Swyddogol yr UE L195/8). Mae Rheoliad (CE) 884/2007 y Comisiwn, dyddiedig 26 Gorffennaf 2007 yn darparu mesurau brys sy'n atal defnyddio E 128 Red 2G fel lliwir bwyd, yn dilyn safbwynt anffafriol yr Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewropeaidd (EFSA).

Hyd yn hyn, o dan Gyfarwyddeb 94/36/EC, caniatawyd defnyddio Red 2G mewn selsig brecwast gydag isafswm cynnwys grawn o 6% a chig byrger gydag isafswm cynnwys llysiau a/neu rawn o 4%. Mae Rheoliad y Comisiwn yn atal: defnyddio'r lliw E128 Red 2G mewn bwyd; rhoi bwyd ar y farchnad sy'n cynnwys y lliw E128 Red 2G; a mewnforio bwyd sy'n cynnwys y lliw E128 red 2G. Penderfynwyd atal Red 2G o ganlyniad i safbwynt diweddar EFSA, a oedd yn dangos y gallai fod gan E128 Red 2G y potensial i niweidio deunydd genetig mewn celloedd ac achosi canser mewn anifeiliaid.

Mae Rheoliad y Comisiwn sy'n gysylltiedig â'r Rheoliadau hyn yn cynnwys mesurau rheoli brys a ddaeth i rym ar 28 Gorffennaf 2007 – y diwrnod ar ôl ei gyhoeddi yng Nghyfnodolyn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Ffôn * Tel 029 2082 8055
Ffacs * Fax 029 2089 8475
Correspondence.Carwyn.Jones@Wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)
Printed on 100% recycled paper

Pe na bai Cymru, ynghyd â gweddill y DU yn gweithredu'r Rheoliad hwn, byddent yn gweithredu'n groes i ofyniad y Gymuned. Hefyd, gallai'r risg o beidio â gweithredu'r ddeddfwriaeth ar unwaith yng Nghymru olygu bod defnyddwyr yng Nghymru'n gallu dwyn cyhuddiadau nad yw'r defnyddiwr yng Nghymru'n cael yr un lefel o ddiogelwch cyhoeddus â defnyddwyr eraill ledled y DU.

Daeth Rheoliadau tebyg i rym yn Lloegr ar 2 Awst 2007 a byddant yn dod i rym yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ar 3 Awst 2007. Felly er mwyn sicrhau cysondeb gorfodaeth ledled y DU, mae'n rhaid torri'r rheol 21 diwrnod er mwyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 3 Awst 2007 yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi bod yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae Memorandwm Esboniadol hefyd wedi ei baratoi sy'n cynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, ac mae hwn, ynghyd â'r Rheoliadau wedi eu gosod yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Dr Dai Lloyd, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a Chris Reading, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.